# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0495(FM) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar ran Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 18 Mai 2005

**At Eleanor Burnham:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 18 Mai 2005, bu ichi ofyn ynghylch effaith amddiffyn yr arfordir a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar gynllun llwybr arfordir Afon Dyfrdwy yn sir y Fflint.

Mae llwybr arfordir Afon Dyfrdwy yn brosiect gan Gyngor Sir y Fflint a gyllidir gan raglen grant trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amcangyfrifir mai £5.2 miliwn fydd cyfanswm y gost. Mae'r cyngor wedi derbyn setliad grant trafnidiaeth gwerth £1.35 miliwn ar gyfer 2005-06 a bwriedir cwblhau'r cynllun ym mis Mawrth 2007.

Bwriad y cynllun yw darparu llwybr ar gyfer beicwyr a cherddwyr o safon uchel heb drafnidiaeth arno a fydd yn 55 km o hyd rhwng Gaer a Phrestatyn. Bydd y llwybr yn darparu llwybr unigryw ac uniongyrchol ar gyfer teithwyr a fydd yn cysylltu ardaloedd preswyl gyda phrif ardaloedd cyflogi/busnes ar hyd coridor yr Afon Dyfrdwy megis y rheiny yn y Fflint, Treffynnon, Mostyn, Brychdwn a Glannau Dyfrdwy. Cwblhawyd rhai rhannau o'r llwybr eisoes ac mae rhannau eraill wrthi'n cael eu hadeiladu.

Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am ddyluniad ac adeiladwaith y llwybr. Deallaf oddi wrth y cyngor ei bod yn annhebygol y bydd gofyniad am unrhyw waith mawr i amddiffyn yr arfordir fel rhan o'r prosiect. Wedi dweud hynny, ni chadarnhawyd y llwybr terfynol o ran rhai rhannau o'r llwybr felly nid yw ei leoliad o ran aber yr Afon Dyfrdwy wedi ei benderfynu'n derfynol eto. Os bydd angen rhyw fath o waith i amddiffyn yr arfordir bydd angen i'r cyngor asesu'n drylwyr effaith ei gynigion ar yr arfordir a chymryd y mesurau lliniaru neu iawndal angenrheidiol i amddiffyn yr aber.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth.

## Gwybodaeth ychwanegol at Ddatganiad ar Band Eang Cymru a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 18 Mai 2005

**At bob Aelod Cynulliad:**

Yn ystod y ddadl, nid oedd gennyf amser i ateb rhai o'r cwestiynau manwl a ofynnwyd. Fodd bynnag, bu i mi addo i fynd ar drywydd y pwyntiau a godwyd ac ysgrifennu atoch yn eu cylch. Mae'r llythyr hwn yn rhoi ateb cyfansawdd.

O ran y prosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol (RIBS) a'r amserlen ar gyfer digwyddiadau, fel y byddwch yn gwybod, ystyrir ymyrraeth yn y farchnad band eang yn gyffredinol gan y Comisiwn Ewropeaidd fel cymorth gwladol, a hysbyswyd y CE ynghylch y prosiect yn gynharach eleni. Ar 1 Mehefin, yr oeddwn yn falch i gyhoeddi bod y CE wedi cymeradwyo'r prosiect. Bydd gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau band eang y cyfle yn awr i ymateb i hysbyseb a gyhoeddwyd yn yr *Official Journal of the European Union* (OJEU), ar 14 Mehefin 2005. Bydd fy swyddogion yna yn ystyried pa gynnig sy'n cynrychioli'r gwerth gorau i Gymru a bydd yn dewis cyflenwr yn ôl hynny.

Bu i Lisa Francis grybwyll rhai pryderon ynghylch a fyddai caffael cyhoeddus RIBS yn cael unrhyw effaith ar rannau gwledig Cymru megis Canolbarth a Gorllewin Cymru, sef ei hetholaeth. Gallaf gadarnhau y bydd y prosiect RIBS yn gweithredu ar sail Cymru gyfan mewn ardaloedd trefol a gwledig, mewn ardaloedd Amcan 1ac mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Amcan 1. Yr wyf wedi

ymrwymo i sicrhau bod band eang ar gael i bob un o'r 35 cyfnewidfa na gynhwyswyd yng nghynlluniau'r gweithredwyr telathrebu i ledaenu'r gwasanaeth. Bydd y prosiect yn effeithio'n sylweddol ar Bowys, sir Gaerfyrddin a Cheredigion lle mae 15 cyfnewidfa yn annichonadwy. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi ei bwysleisio sawl gwaith, mae'r prosiect RIBS yn ymwneud â darparu band eang i bwy bynnag sydd ei eisiau, ac felly bydd yn effeithio ar ardaloedd gwledig a threfol. Gallaf gadarnhau i Glyn Davies y bydd cymuned Castell Caereinion yn cael cyswllt band eang unwaith y bydd y broses o ledaenu'r gwasanaeth i ardaloedd lle ceir trafferth derbyn y gwasanaeth yn cychwyn.

Gan symud ymlaen at ledaenu gwasanaethau band eang ail genhedlaeth yng Nghymru, gallaf gadarnhau bod tystiolaeth yn bodoli eisoes sy'n dangos bod y diwydiant telathrebu yn darparu gwasanaethau ail genhedlaeth mewn rhai cymunedau trefol yng Nghymru. Gellir gweld hyn drwy gyflwyniad gwasanaethau â lled band lletach a ddarparwyd yn awtomatig i gwsmeriaid presennol yng Nghymru (ee 2 Mbps fel maint safonol gan BT a hyd at 3 Mbps gan NTL). Yn ogystal, bydd y ffaith bod NTL wedi cyflwyno Video on Demand drwy ei rwydwaith Cymreig a bod cysylltiadau band eang 4 Mbps wedi cael eu cyflwyno ledled ardaloedd trefol Cymru, drwy Bulldog a Cable and Wireless, yn debygol o gynyddu'r galw am led band sy'n cynyddu drwy'r amser gan fusnesau a defnyddwyr. Ym mis Ionawr 2005, cyhoeddodd BT y byddai'n uwchraddio 15 cyfnewidfa newydd yng Nghymru gyda gallu SDSL. Mae hyn yn cynyddu'r nifer o gyfnewidfeydd SDSL Cymreig i 19 pan gwblheir cam cyntaf y rhaglen weithredu erbyn Medi 2005. Mae disgwyl i BT gyhoeddi y bydd 500 o gyfnewidfeydd eraill yn cael cysylltiad SDSL drwy'r DU, er na chadarnhawyd eto lle y bydd y cyfnewidfeydd hyn.

O ran cwestiwn Mike German ynghylch a all Llywodraeth y Cynulliad gadarnhau erbyn diwedd Mehefin os ydym am ymyrryd i gyflymu'r broses o ddod â gwasanaethau band eang ail genhedlaeth i Gymru; yn anffodus, ni allaf ymrwymo i'r dyddiad hwn ar hyn o bryd. Fel y gŵyr llawer o ohonoch, pwrpas y safle froceriaeth yw felly i ganfod a oes galw pellach mewn rhannau o Gymru ar wahân i'r dinasoedd trefol a'r trefi masnachol. Fel rhan o'r strategaeth ddiwygiedig a lansiais yn Ionawr 2005, addewais y byddai unrhyw dystiolaeth a gasglwyd gan y safle froceriaeth yn cael ei rannu gyda'r cwmnïau telathrebu i'w galluogi i ganfod cyfleoedd yn y farchnad Gymreig. Un o brif dargedau y strategaeth yw sicrhau bod gwasanaethau band eang ail genhedlaeth ar gael i o leiaf 50 y cant o'r boblogaeth fusnes yng Nghymru erbyn Mawrth 2007. Bydd fy swyddogion yn cwrdd â chyflenwyr yn yr hydref i drafod y galw sy'n bodoli yng Nghymru.

Gan droi at sylwadau Alun Cairns ar dasglu Band Eang Cymru, ar hyn o bryd mae tri swyddog tasglu yn gweithio o amgylch Cymru. Mae'r tasglu yn parhau i fod yn weithredol o ddydd i ddydd, gan ddarparu cyngor gwybodus i fusnesau, dinasyddion a chyrff ledled Cymru. Gellir gweld enghraifft o'r math o waith mae'r tasglu yn ei wneud yn Llangollen lle mae'n helpu grŵp cymunedol i gael teledu cylch cyfyng yn yr ardal drwy ddefnyddio technoleg band eang. Mae ar gael i roi cyngor a chefnogaeth i gymunedau ledled Cymru.

Yn ateb i sylwadau Lisa Francis ynghylch y tasglu, mae'r tasglu yn sicrhau bod y rhaglen yn cael y wybodaeth lawn ynghylch materion band eang lleol yn ogystal â rhai rhanbarthol a strategol. Mae'r tasglu yn cynrychioli'r rhaglen ledled Cymru ac yn helpu'r gymuned i ddeall beth y gallai'r rhaglen ei olygu i ardaloedd a sectorau unigol yng Nghymru. Mae'r tasglu wedi creu cysylltiadau a phrosiectau gyda chynulleidfa eang o fewn Cymru. Mae wedi sefydlu perthynas gyda chynrychiolwyr allweddol eraill gan gynnwys Bwrdd Datblygu Cymru, Cyfle Cymru a Llygad Busnes i sicrhau bod negeseuon cydlynus a cysylltiol yn cael eu hanfon ynghylch buddion ac argaeledd band eang. Yn ogystal, bu mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol a fforymau economaidd rhanbarthol i sefydlu egwyddorion, arferion a chysylltiadau. Bu gan y tasglu ran uniongyrchol mewn cynhyrchu astudiaethau achos band eang ar gyfer y sectorau busnes, preswyl ac addysg. Mae hefyd wedi sefydlu perthynas lwyddiannus gyda'r prif ddylanwadwyr ar lefelau isranbarthol.

Gan droi at BT a sylwadau Jocelyn Davies, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gadw perthynas waith dda gyda BT, fel y byddwn yn ei wneud gyda phob cyflenwr masnachol sy'n

dangos diddordeb mewn darparu gwasanaethau yng Nghymru. Ysgrifennaf yn benodol at Jocelyn Davies (AM) ynghylch y mater a gododd. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud bod BT yn gwmni masnachol ac na all Llywodraeth y Cynulliad ddylanwadu'n uniongyrchol ar ei weithrediadau.

Dywedodd Mark Isherwood mai dim ond 9 y cant o fusnesau Cymreig sy'n defnyddio band eang. Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn cynrychioli'r busnesau hynny sydd â chyswllt band eang drwy wasanaeth wedi ei ddarparu gan BT; nid yw'n cynrychioli'r rheiny sydd â chyswllt drwy gyflenwyr eraill ac yn defnyddio technoleg wahanol. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni yn dangos bod 27 y cant o fusnesau yng Nghymru yn defnyddio band eang (gan ddefnyddio diffiniad y DTI o fand eang) o'i gymharu â 24 y cant ar gyfartaledd o fusnesau'r DU. Yn ogystal, mae gan 75 y cant o fusnesau mwy yng Nghymru gyswllt band eang.

Gofynnodd Alun Cairns ynghylch y grŵp oes gwybodaeth. Gallaf gadarnhau y cafodd y grŵp oes gwybodaeth ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2000 i gwmpasu'r cam cyn gweithredu/cymryd y camau cyntaf strategaeth Cymru Ar Lein, a ddyluniwyd i'm cefnogi a'm cynghori o ran creu'r strategaeth. Diddymwyd y grŵp ym mis Tachwedd 2001, wedi datblygu'r strategaeth yn llwyddiannus a'i lansio yn yr un mis. Mae'r aelodau yn parhau i fod â rhan mewn darparu'r strategaeth drwy weithgareddau eu sefydliadau eu hunain ac fel cefnogwyr ein hymagwedd gydlynus, ond nid ydynt bellach yn cwrdd fel grŵp.

Yn ateb i Alun Cairns, a geisiodd sicrwydd y bydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn thema drawsbynciol yn y rownd nesaf o geisiadau am gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a'r negodiadau yn ei gylch, gallaf gadarnhau bod cronfeydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gael i brosiectau a all arddangos eu gallu i gynhyrchu'r allbynnau sy'n berthnasol i flaenoriaethau'r rhaglen a mesurau unigol. Mae'r rhain yn sicrhau bod y prosiectau sy'n llwyddo i gael cyllid yn gorfod cynnwys tair thema drawsbynciol, sef cyfleoedd cyfartal, cynaliadwyedd amgylcheddol, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r rhain yn angenrheidiol i sicrhau economi sydd â chydbwysedd da, sy'n gynaliadwy ac yn arloesol. Y strategaethau sy'n sail i'r cyfan yw Cymru Ar Lein-Online for a Better Wales, hybu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu a Cymru'n Ennill. Bydd yn rhaid i brosiectau ddangos cyswllt â'r strategaethau hyn er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y cyllid addas.

O ran sylwadau Mike German am y prosiect cyflymder ffeibr a arweinir gan Fwrdd Datblygu Cymru, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymdrin â'r prosiect ar hyn o bryd. Soniwyd wrth y comisiwn amdano ym mis Chwefror 2005, a bu'r ymateb yn bositif hyd yma. Bu'r cyfnod o brofi'r farchnad yn llwyddiannus ac mae'r achos busnes yn cael ei gwblhau.

Gan gyfeirio at y cwestiwn ynghylch y llwybr caffael dewisol, gallaf gadarnhau na ddewiswyd y llwybr eto. Mae dau opsiwn yn cael eu hystyried, sef caffael uniongyrchol a phartneriaeth gyda'r sector breifat. Caiff yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ei ddewis yn dilyn gwerthusiad o achos busnes y prosiect. Fodd bynnag, bydd y prosiect drwyddo draw yn dal i fod yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy i sicrhau ei fod yn cynrychioli gwerth am arian. Yn ogystal, mae angen cymeradwyaeth cymorth gwladwriaethol CE ar y prosiect.

Gan symud ymlaen at y cwestiwn ynghylch costau ymgynghorol y prosiect, ni wnaethpwyd penderfyniad terfynol i weithredu'r prosiect ar hyn o bryd. Gwariwyd cyfanswm o £534,000 ar ddatblygu'r prosiect, ymgynghori a chostau cyfreithiol hyd yma.

O ran sylwadau Lisa Francis am yr adolygiad o'r diwydiannau creadigol, nid wyf yn derbyn nad yw'r strategaeth yn cefnogi cynnwys y we nac ei fod yn wan o ran protocol y rhyngrwyd. Gwerthfawrogir y dylanwad ar ddulliau newydd o ddatblygu cynnwys yn gyfan gwbl. Mae'n eithaf tebygol y bydd prosiectau teledu yr ystyrir rhoi cymorth iddynt yn cwmpasu sawl llwyfan o ran eu natur. Yn ei amryw ddogfennau sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae OFCOM wedi amlinellu'r hyn y mae y rhan fwyaf o sylwebwyr yn ei ystyried yn farn gytbwys o gyfeiriad

darlledu a datblygu cynnwys. Mae pob darlledydd i raddau amrywiol yn edrych am gynnwys sy'n ymestyn ar draws lwyfannau, a hyd yn oed yn ymestyn i gynnwys sy'n addas i'w ddefnyddio ar ffonau symudol. Gallaf eich sicrhau y bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ar gyfer y gronfa IP. Dyma un o'r prif resymau pam yr ydym wedi cyflogi ymgynghorwyr ar gyfer y diwydiant, er mwyn darparu cymorth yn yr arolwg.

Nodaf fod Rhodri Glyn Thomas yn galw am raglen gynhwysfawr i ddarparu hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o fewn Cymru. Er nad yw TGCh wedi ei gynnwys o fewn ein diffiniad o sgiliau craidd yng Nghymru, mae ELWa yn ariannu nifer o raglenni dysgu ôl-16, drwy raglenni craidd ar gyfer disgyblion chweched dosbarth ac mewn colegau addysg bellach, a thrwy ragleni hyfforddi mwy penodol megis prentisiaethau modern. Caiff ystod eang o ddysgu yn y gymuned ei ddarparu hefyd drwy awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Yn ogystal, mae cymorth TGCh ar gael i fusnesau Cymreig mewn canolfannau TGCh Arbrofwch cyn Prynu sydd wedi eu lleoli o fewn pob ardal awdurdod unedol ledled Cymru. Hefyd, gall Cymru Ar Lein gynnig hyfforddiant TGCh sylfaenol am ddim drwy ei fenter Llywio'r Llygoden, sydd â gweithdai drwy Gymru.

Yn olaf, cyfeiriaf at bryderon Mark Isherwood ynghylch y fenter Arwydd Cymru. Byddaf yn ysgrifennu atoch ynghylch y fenter hon, ond gallaf gadarnhau bod gan fy swyddogion ddiddordeb mawr yn y prosiect hwn ac maent wrthi'n ceisio trefnu cyfarfod. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i gefnogi'r buddiannau anhygoel y gall TGCh ei roi i bobl fyddar yng Nghymru. Fel y soniais eisoes, mae Cymru ar Lein yn darparu hyfforddiant TGCh sylfaenol drwy ei fenter Llywio'r Llygoden. Ym mis Chwefror 2004, bu iddo drefnu hyfforddiant Llywio'r Llygoden ar gyfer grŵp o bobl gydag anawsterau clywed dwys yn Llandrindod. Gan weithio gyda'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Fyddar a gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Powys, bu iddo drefnu bod darllenwr gwefusau yno i gynorthwyo. Dywedodd uwch ymarferwr o'r gwasanaethau cymdeithasol bethau positif ynglŷn â'r digwyddiad a chadarnhaodd y rhai a'i mynychodd hefyd ei fod yn brofiad buddiol. Mae'r RNID eisoes yn ymwybodol ein bod yn awyddus i weithio gyda'r sefydliad eto yn y dyfodol i drefnu gweithdai tebyg. Wrth gwrs, byddem yn hapus i ddarparu'r gwasanaeth a'r hyfforddiant hwn i grwpiau eraill o bobl gydag anawsterau clywed.

Gwerthfawrogaf eich diddordeb yn y rhaglen a'i amcanion. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn helpu i ateb eich holl gwestiynau ac i dawelu eich meddyliau.